Gwasanaeth y Tribiwnlys Prisio yng Nghymru

CYNGOR CYFFREDINOL YNGLŶN AG APELIO YN ERBYN EICH TRETHI ANNOMESTIG NEU DRETH Y CYNGOR

G/496/04-05
ISBN: 0 7504 3754 5

Ebrill
CMK-22-08-011

Cysodwyd teip 12pt
© Hawlfraint y Goron 2005

BETH YW TRIBIWNLYSOEDD PRISIO?

Mae yna bedwar Tribiwnlys Prisio (TP) yng Nghymru sydd o dan nawdd y Gwasanaeth Tribiwnlys Prisio yng Nghymru (GTPC) ac yn cael eu hariannu gan gronfeydd cyhoeddus Cynulliad Cenedlaethol Cymru (CCC).

Mae'r tribiwnlysoedd prisio yn annibynnol o:

- Gynulliad Cenedlaethol Cymru (ag eithrio nawdd a galluogi deddfwriaeth);
- y Swyddog Prisio sy'n gosod gwerthoedd trethiannol ar eiddo annomestig;
- y Swyddog Rhestru sy'n gosod bandiau Treth y Cyngor ar gyfer eiddo domestig; a
- chynghorau lleol (awdurdodau bilio) sy'n gyrru'r biliau ar gyfer trethi a Threth y Cyngor: ac yn penderfynu pwy sy'n atebol.

Gwirfoddolwyr a phobl leol yw Aelodau'r Tribiwnlysoedd. Er nad ydynt efallai yn gymwys yn broffesiynol, maent yn derbyn hyfforddiant ac yn brofiadol mewn gwrando apeliadau. Fel arfer bydd tri aelod yn gwrando ar eich apêl [er fe all dau aelod wrando apêl os ydi pawb yn cytuno i hyn].

Bydd clerc yn cynghori ar faterion trefn a'r gyfraith. Mae'r clerc yn gyflogedig gan y tribiwnlys.

Mae TP yn darparu gwasanaeth rhad ac am ddim, felly ni allant ddyfarnu eich bod yn talu costau. Fodd bynnag, mae'n rhaid i chi dalu eich costau eich hunain i fynychu'r gwrandawiad tribiwnlys. Mae'r Tribiwnlysoedd yn gwrando apeliadau yn lleol, lle bo modd gwneud hynny.

SUT MAE APELIO?

1. Trethi Annomestig a Phrisiant Treth y Cyngor (Bandio)

Os nad ydych yn hapus gyda eich gwerth trethiannol neu fand Treth y Cyngor, dylech gysylltu â'r Swyddog Prisio. (Mae'r Swyddog Prisio yn cael ei adnabod fel y Swyddog Rhestru pan yn delio ag apeliadau Treth y Cyngor, ond mae'r ddau derm yn cyfeirio at yr un person.)

Bydd y Swyddog Prisio yn gyrru ffurflen i chi ei llenwi, a elwir yn gynnig, ac yn eich hysbysu o unrhyw gyfyngiadau amser.

Mae'n rhaid i'r Swyddog Prisio/Swyddog Rhestru (SP/SR) yn ôl y gyfraith yrru unrhyw gynnig na chytunwyd arno i'r Tribiwnlys perthnasol o fewn y terfynau amser penodedig. Mae'n rhaid i hyn ddigwydd hyd yn oed os nad oes unrhyw drafodaethau wedi digwydd: ar drosglwyddiad mae'r cynigiad yn dod yn apêl.

Mae rhif ffôn ar gyfer eich Swyddog Prisio/Swyddog Rhestru lleol ar dudalennau olaf y daflen hon.

2. Rhaglennu Apeliadau

Er budd rheolaeth effeithiol, mae'r Swyddog Prisio/Swyddog Rhestru yn gweithredu system sy'n rhaglennu apeliadau fel y rhoir rhagrybudd o'r cyfnod trafod: cyn y rhestru arfaethedig gan y Tribiwnlys. Mae'r Tribiwnlysoedd yn ystyried bod y weithred hon gan y SP/SR o gymorth i'r ddau barti a'r Tribiwnlys o safbwynt prosesu apeliadau yn effeithlon a'r defnydd o adnoddau sy'n cael eu hariannu gan y cyhoedd. Yr amser prysuraf yw yn union wedi ailbrisiad: ac o ganlyniad mae'n bosibl bydd oedi yn y flwyddyn gyntaf (2005/06) ond rhagwelir y bydd hyn yn gwella mewn blynyddoedd i ddod.

3. Atebolrwydd Treth y Cyngor

Dyma rai enghreifftiau o apeliadau gallai'r Tribiwnlys eu hystyried.

- Nad ydych yn meddwl y dylech fod yn atebol ar gyfer talu'r bil Treth y Cyngor.

- Nid yw cyngor yn fodlon rhoi gostyngiad i chi er fod person anabl yn byw yn eich eiddo ac mae yna le ychwanegol ar gyfer eu cadair olwyn neu fod yna ystafell, fel ystafell ymolchi neu gegin ychwanegol, sy'n caniatáu i'r person anabl fyw yno.
- Rydych yn credu y dylai'r cyngor roi disgownt ar Dreth y Cyngor rydych yn ei thalu ar eich eiddo.
- Rydych yn credu na ddylech dalu Treth y Cyngor ar eich eiddo.

Yn gyntaf dylech ysgrifennu at eich Cyngor gan egluro beth yw'r broblem. Dylai'r Cyngor yrru ateb i chi o fewn dau fis. Os ydych yn dymuno apelio, mae'n rhaid i chi gysylltu â swyddfa'r Tribiwnlys o fewn dau fis o benderfyniad y Cyngor. Yna bydd ffurflen apêl Treth y Cyngor yn cael ei hanfon atoch i chi ei llenwi.

Os nad yw'r Cyngor yn ysgrifennu'n ôl atoch o fewn dau fis, fe allech ddal i apelio atom ni, cyn belled nad oes pedwar mis wedi mynd heibio ers i chi ysgrifennu at y Cyngor yn wreiddiol.

Nid yw Tribiwnlys yn gwrando apeliadau sy'n ymwneud â Budd-dâl Tai, Budd-dâl Treth y Cyngor neu pan nad ydych wedi talu eich bil Treth y Cyngor.

Dylech gysylltu â'ch cyngor lleol am gyngor ynglŷn â'r materion hyn.

4. Hysbysiadau Cwblhau

Os ydych yn meddwl nad yw gwaith ar eich eiddo wedi'i gwblhau, ac ni ellir ei gwblhau yn rhesymol erbyn y dyddiad ar yr hysbysiad cwblhau, gallwch apelio yn uniongyrchol i ni.

Os ydych yn dymuno apelio, mae'n rhaid i chi gysylltu â Swyddfa'r Tribiwnlys o fewn pedair wythnos o dderbyn yr hysbysiad cwblhau. Dylech ofyn i'r swyddfa yrru ffurflen apêl i chi. Mae angen i chi lenwi'r ffurflen a gyrru copi o'r hysbysiad cwblhau. Dylech wneud apêl gwahanol ar gyfer pob hysbysiad cwblhau.

Mae manylion ynglŷn â sut y gallwch gysylltu a'ch Tribiwnlys lleol ar gefn y daflen hon.

5. Mae'r Tribiwnlys hefyd yn gwrando apeliadau yn erbyn cosbau sy'n cael eu gosod gan y Swyddog Prisio neu Awdurdod Bilio am beidio â darparu gwybodaeth mae ganddynt yr hawl i ofyn amdano.

6. Mae yna hefyd apeliadau yn erbyn trethi draenio, sy'n cael eu pennu gan Fwrdd Draenio, sy'n dod o dan awdurdod y Tribiwnlysoedd Prisio.

Cysylltwch â swyddfa'r Tribiwnlys am ragor o wybodaeth am y mathau hyn o apeliadau.

BETH SY'N DIGWYDD WEDI I'R TRIBIWNLYS DDERBYN APÊL?

Bydd swyddfa'r TP yn rhoi gwybod i chi pan rydym wedi derbyn eich apêl gan yrru arweinlyfr sy'n egluro'r broses apêl a sut y gallwn fod o gymorth. Bydd hysbysiad o wrandawiad yn cael ei yrru i chi cyn gynted â phosib. Byddwch yn derbyn o leiaf pedair wythnos o rybudd o ddyddiad y gwrandawiad.

Os nad ydych yn gallu mynychu gwrandawiad y Tribiwnlys ar y dyddiad ac amser a roddwyd, gallwch ofyn am:

- ddyddiad gwrandawiad arall;
- ddelio â'r achos yn eich absenoldeb.

Bydd dyddiad gwrandawiad newydd yn cael ei drefnu os ydych wedi ceisio cytuno eich achos gyda'r Swyddog Prisio/Swyddog Rhestru neu'r cyngor, ac yn gallu rhoi rheswm da dros beidio â mynychu ar y dyddiad gwreiddiol. Gall fod yn gryn amser cyn y gellir trefnu dyddiad gwrandawiad newydd.

BETH SY'N DIGWYDD YNG NGWRANDAWIAD Y TRIBIWNLYS?

Mae'r gwrandawiad yn weddol anffurfiol ac fe fydd y Tribiwnlys yn ceisio gwneud i bawb deimlo'n gartrefol. Yn ystod y gwrandawiad bydd y Tribiwnlys yn gofyn i chi gyflwyno eich achos a byddwch yn gallu gofyn cwestiynau ynglŷn ag unrhyw dystiolaeth y mae'r Swyddog Prisio/Swyddog Rhestru neu'r Cyngor wedi'i chyflwyno.

Mae bob amser yn ddefnyddiol i chi fod yn bresennol yn y gwrandawiad fel eich bod yn gallu ateb unrhyw gwestiynau gan Aelodau'r Tribiwnlys. Fodd bynnag, mae'r Aelodau yn rhoi yr un ystyriaeth i bob achos sy'n dod ger eu bron. Gellir gofyn i'r Tribiwnlys ddelio â'ch achos yn eich absenoldeb.

Bydd manylion cyfarwyddyd pellach yn cael eu hanfon atoch chi gyda'r hysbysiad o wrandawiad.

PA FATH O BOBL SY'N AELODAU LLEYG Y TRIBIWNLYS PRISIO?

Mae aelodau'r Tribiwnlys Prisio yn dod o groestoriad eang o'r gymdeithas. Maent yn cynnwys pobl o grwpiau ethnig lleiafrifol a phobl ag anabledd, sy'n cynrychioli amryw broffesiwn yn cynnwys athrawon, cyfreithwyr, penseiri, plymwyr, tafarnwyr, siopwyr a phobl busnes, yn ogystal â phobl sydd wedi ymddeol. Mae rhai o'r cyn aelodau a'r aelodau presennol yn cynnwys rhai pobl sydd wedi ymddangos gerbron Tribiwnlys yn flaenorol i apelio yn erbyn eu Trethi neu Dreth y Cyngor eu hunain.

Nid yw aelodau Tribiwnlys yn derbyn unrhyw dâl am eu gwaith. Serch hynny, maent yn gallu hawlio costau teithio, prydau a phan yn angenrheidiol, coll enillion. Ni allwch ddod yn aelod os ydych wedi cael eich carcharu neu wedi cael eich gwneud yn fethdalwr.

ALLWCH CHI OFYN I SWYDDFA'R TRIBIWNLYS AM GYNGOR?

Gallwch. Mae'r Clerc a'r Staff bob amser yn ceisio bod yn gwrtais a chynorthwyol a byddent yn ateb unrhyw gais rhesymol am gymorth neu gyngor. Mae croeso i chi ymweld â swyddfa'r Tribiwnlys neu gysylltu â ni drwy ffonio, ffacsio neu e-bostio. Mae copïau o'n arweinlyfrau a gwybodaeth arall ynglŷn â Gwasanaeth y Tribiwnlys Prisio ar gael ar y rhyngrwyd sef www.valuation-tribunals.gov.uk (Gwasanaeth Triwbiwnlys Prisio Lloegr).

Mae gwefan dwyieithog yn cael ei datblygu yng Nghymru ar hyn o bryd (mae pob TP yn gweithredu yn debyg yn eu hanfod, ond mae yna ychydig o wahaniaethau rhwng Cymru a Lloegr o safbwynt deddfwriaeth).

www.valuation-tribunals-wales.gov.uk [GTP Cymru)

MWY O WYBODAETH

Mae'r gwrandawiadau yn cael eu cynnal mewn swyddfeydd tribiwnlys, adeiladau cyhoeddus a mannau cyfarfod eraill sy'n addas.

Mae copïau o holl benderfyniadau'r Tribiwnlys yn cael eu cadw am chwe blynedd. Gall y cyhoedd edrych ar y penderfyniadau hyn. Os ydych eisiau edrych ar unrhyw o'r penderfyniadau hyn, cysylltwch â'ch swyddfa dribiwnlys leol os gwelwch yn dda. Mae copïau o benderfyniadau diweddar ag agendâu ar gyfer apeliadau rhestr brisio annomestig ar wefannau gwasanaeth, lle allwch ganfod rhagor o wybodaeth ynglŷn â Gwasanaeth y Tribiwnlys.

Y prif ddeddfwriaeth sy'n gweinyddu Treth y Cyngor a Trethi Annomestig yw Deddfau Cyllid Llywodraeth Leol, 1998 a 1992 ynghyd â rheolau ategol – yn arbennig;

i) Rheoliadau Treth y Cyngor (Newid i Restrau ac Apeliadau) 1993 Offeryn Statudol 290

ii) Rheoliadau Tribiwnlys Prisio (Cymru) 1995 Offeryn Statudol 3056
iii) Rheoliadau Trethiant Annomestig (Newid i Restrau ac Apeliadau) 2005 Offeryn Statudol 758.

Rydym yn ymroddedig i drin pob un yn deg. Ni fydd unrhyw un sy'n gwneud apêl yn cael eu trin yn llai ffafriol oherwydd eu hil, lliw, cenedligrwydd, oed, crefydd, tras ethnig, rhyw, rhywioldeb, statws priodasol neu anabledd.

Os oes gennych unrhyw anghenion ychwanegol, er enghraifft, eich golwg, clyw neu symudedd, neu os byddwch angen cyfieithydd, rhowch wybod i Swyddfa'r TP o flaen llaw, os gwelwch yn dda. Fe fyddwn yn gwneud ein gorau i'ch helpu.

Amlinellir cydsynaid GTPC i Ryddid Gwybodaeth, Gwarchod Data a Deddfwriaeth Gwybodaeth Amgylcheddol mewn datganiad polisi a fydd yn cael ei gyhoeddi ar wefan GTPC: copïau ar gael drwy swddfeydd TP.

TRIBIWNLYS AR GYFER DWYRAIN CYMRU

Tribiwnlys Prisio Dwyrain Cymru
22 Gold Tops
Gwent
CASNEWYDD
NP20 4PG
Ffôn: 01633 266367
Ffacs: 01633 253270
E-bost: eastwales.vt@vto.gsx.gov.uk

Swyddfeydd Prisio:

Wrecsam
Tŷ'r Rhaglyw
Stryd Rhaglyw
WRECSAM
LL11 1PR Ffôn: 01978 200000

Merthyr Tudful
Cyllid y Wlad
Adeiladau'r Llywodraeth
Stryd y Castell
MERTHYR TUDFUL
CF47 8TX Ffôn: 01685 358000

Ardaloedd: CYNGHORAU (AWDURDODAU BILIO)

CS Powys
CBS Blaenau Gwent
CBS Caerffili
CS Sir Fynwy
CT Casnewydd
CBS Torfaen

Casnewydd
Ail Lawr
Tŷ Clarence
Clarence Place
CASNEWYDD
Gwent
NP20 7AA Ffôn: 01633 205600

TRIBIWNLYS AR GYFER GOGLEDD CYMRU

Tribiwnlys Prisio Gogledd Cymru
Ffordd Dinerth
Llandrillo-yn-Rhos
BAE COLWYN
Conwy
LL28 4UL
Ffôn: 01492 546610 Ffacs: 01492 545935
E-bost: northwales.vt@vto.gsx.gov.uk

Ardaloedd: CYNGHORAU (AWDURDODAU BILIO)

CBS Wrecsam
CS Y Fflint
CS Ddinbych
Cyngor Gwynedd
CS Ynys Môn
CBS Conwy

Swyddfeydd Prisio:

Wrecsam
Tŷ'r Rhaglyw
Stryd Rhaglyw
WRECSAM
LL11 1PR Ffôn: 01978 200000

Bangor
Tŷ Glyder
339 Stryd Fawr
BANGOR
LL57 1YA Ffôn: 01978 200000

TRIBIWNLYS AR GYFER DE CYMRU

Tribiwnlys Prisio De Cymru
22 Gold Tops
CASNEWYDD
NP20 4PG
Ffôn: 01633 255003 Ffacs: 01633 255004
E-bost: southwales.vt@vto.gsx.gov.uk

Ardaloedd: CYNGHORAU (AWDURDODAU BILIO)

CBS Pen-y-bont ar Ogwr
CS Caerdydd
CBS Rhondda Cynon Taf
CBS Bro Morgannwg
CBS Merthyr Tudful

Swyddfeydd Prisio:

Caerdydd
Tŷ Rhodfa
Ffordd Tŷ Glas
Llanisien
CAERDYDD
CF14 5GR Ffôn: 02920 806800

Merthyr Tudful
Cyllid y Wlad
Adeiladau'r Llywodraeth
Stryd y Castell
MERTHYR TUDFUL
CF47 8TX Ffôn: 01685 358000

TRIBIWNLYS AR GYFER GOLLEWIN CYMRU

Tribiwnlys Prisio Gorllewin Cymru
Llawr Cyntaf
14 Stryd y Brenin
CAERFYRDDIN
SA31 1BH
Ffôn: 01267 235071 Ffacs: 01267 221579
E-bost: westwales.vt@vto.gsx.gov.uk

Swyddfeydd Prisio:

Caerfyrddin
Adeiladau'r Llywodraeth
Teras Picton
CAERFYRDDIN
SA31 3BT Ffôn: 01267 322200

Ardaloedd: CYNGHORAU (AWDURDODAU BILIO)

Dinas a Sir Abertawe
CS Caerfyrddin (Rhan 3)
CS Caerfyrddin (Rhan 1 a 2)
CS Ceredigion
CS Sir Benfro

Abertawe
Tŷ Nant
180 Stryd Fawr
ABERTAWE
SA1 1JR Ffôn: 01792 497700

Dylech nodi nad yw'r daflen hon yn cynnwys pob agwedd o Dribiwnlysoedd Prisio. Nid yw'r wybodaeth mae'n ei chynnwys yn rhwymo unrhyw Dribiwnlys Prisio, nac yn effeithio ar ddefnydd y rheolau neu ddeddfau perthnasol. Bydd Clerc y Tribiwnlys yn ymateb i unrhyw gais rhesymol am gyngor ynglŷn â'r drefn cyn dechrau'r gwrandawiad.